

Cystadleuaeth y Gadair
Y gerdd fuddugol a beirniadaeth y gystadleuaeth gan y
Prifardd Carwyn Eckley

Buddugol: Crwydryn Arfordir Cymru sef Arwel Emlyn Jones,
Penbryn, 1 Maes y Dre, Rhuthun, Sir Ddinbych LL15 1DB

68. Cerdd y Gadair
Llwybrau

Fel dydd y creu, dechreuaf,
Ar daith faith, o Gaer... fe af,
Arfordir hir ydyw hon
Ar gael i godi'r galon,
Ac ar wîb o Gaer i Went
Rwyf yma yn byw'r foment.
Agor drws i'r gwir drysor
Yw mynd a mynd ger y môr,
Trysor sy'n adrodd stori
Oriau maith y môr a mi.



Troedio wyf drwy'r Fflint ar daith...
Y wefrdaith heibio'r Ddyfrdwy;
Cân a cherdd yn fy ngherdded
Ar fyned draw i Fynwy.
Rhyl, bererin, min y môr,
Rhodio'r anfesuradwy.
Yma o hyd, ac mae heddi:
Digonedd ger Deganwy.
Heulwen ffydd y dydd sy'n dal
I'm cynnal... i'r dim... Conwy.
Teimlo'n iach, ceir brafiach bro
Wrth wthio drwy Porthaethwy,



Mynwes Mam yw Ynys Môn.



**Ym Mhenrhyn Llŷn mae'n cyrraedd penllanw,
Pelydrau'r golau sydd yno'n galw
Y canu corawl a'r caniau cwrw
A thon a thoriad a thiwn a thwrw!
Moddion y traethau meddw - fel erioed;
Hel broc y coed, hen lwybrau, a'u cadw.**

**Eto'n y gwanwyn mae tân i'w gynnau
Rwyf bererin y cregin a'r creigiau
A stŵr yr awel yw rhannu storïau
Echdoe yr heli, a chodi'r hwyliâu:
Wedi heddiw daw dyddiau – yfory,
A sêr yn saethu ias i'r nosweithiau.**



**Glannau yr hen glogwynni
A gerddais, a llais y lli
Yn storm dros fynwes y don,
Yn drech na'm holl ymdrechion.**

**Yr wyf bererin ar fin rhoi fyny
Beth ydyw'r ots am weld môr yfory?
Daw sêr i'r gorwel, mae'n amser gwely,
Rwy'n canfod cysgod mewn hen fag cysgu,
A'r niwl yn fy nghornelu – teimlo'n bell:
Ambell draethell yn dir o hiraethu.**

**Rwyf uwchlaw'r môr yn yr awyr agored,
Fel bo angel yn cysidro'n nhynged,
Y sêr a minnau'n mesur y myned,
Mesur fy angerdd wrth ddal i gerdded,
Wrth fy hun, gwnaf adduned: - dewr fyddaf:
Y poenau gelaf dan ffrynt pengaled.**



**Ail-gydio, hwyl o godi - yn fore,
Hen fôr im hangori,
Hen gerddwr yn dad-gorddi
Gerllaw Mwnt a'r swnt yn si.**

Aberteifi ydi'r fan - i fyned,

**A'r fan i ymlwybran,
Crwydryn meddyliau'r hunan,
Tyr y wawr dros lawr y lan.**

**Ymadael a chymodi – a sgwrsio
Dros gorsydd clogwynni,
Hen gerdded hwiangerddi
Y mae yn wawr rhyngom ni.**

**Awn o Gwberrt mewn gobaith – a'r afon
Yn braf ei gorymdaith
I'r arfordir ar fordaith,
Llifo'r oedd i'r moroedd maith.**



**Daeth naws o deithio noswaith
A'r swyn o aros unwaith
Dan y sêr am amser maith.**

**Rhodio'i lawr ar hyd y lan,
Yn llawn mwynhau'r golau gwan,
Hyn oll a'r llanw allan.**

**Hŷn y sêr na'm hanes i,
Hŷn na'r heulwen a'r heli,
Hŷn na'r lloer a llanw'r lli,**

**Hŷn na'r tir arfordirol,
Hŷn na thraeth hiraeth hwyrol,
Hŷn na ffyrdd hen grwydryn ffôl.**



**Heddiw, a neb yn ddiwyd – yn nhafarn
Un haf o fy mywyd,
Hofran drwy'r oriau hyfryd
Ym Maenor Byr, mwynhau'r byd.**

Gŵr a'i wydrau ar grwydro – yw un gŵr

**Sydd fel Gerallt Gymro!
Yn bererin diflino
Ar lwybrau hir awel bro.**

**Crwydro'r tywod, cofnodi – fy enw:
Rwyf innau'n bodoli!
Ond ar y llawr wedi'r lli,
Wedi'r trai, byddai'n boddi.**



**Rwy'n mwynhau a hithau'n hwyr
Y bywyd sydd heb wewyr,
Yn rhannu gwefr Penrhyn Gwŷr.**

**Bae Rhosili'n corddi'r co',
Heli a chychod hwyllo,
Heulwen dros draeth torheulo.**

**Bae'r Tri Clogwyn a thwyni,
Tirwedd a thon yn torri'n
Un don fawr amdanaf i.**



**Hen deyrnas, llun y diwrnod - Ac wele
Dwy galon ar dywod,
Llun ddoe nes i'r llanw ddod
Undydd, a chwalu'r undod.**

**Ffrae yn y bae oedd y byd – dim uniad
Y myned pob munud.
Un bae dan donnau bywyd,
Iaith y môr yn draethau mud.**

**Ond, braf oedd Aberafan – a ni'n dau
Yn y dŵr yn lolian
Cosodd y môr fel cusan,
Dod ar lif cariad i'r lan.**

**Haul euraidd yn disgleiro – dwy galon
Gyda’u gilydd eto,
Dyma draeth dau’n mynd am dro
Drwy’r dŵr grisial. Dal dwylo.**



**TATA Steel, bwystfil y byd – Cr’adur dur
Drwy bob dydd yn ddiwyd,
Ei draed yn bibellau drud,
Bowels metalic bywyd.**

**Ei wyneb diwydiannol – aruchel
Ei freichiau aruthrol,
Ardal o fetal ei fol
A’i dyrrau’n arfordirol.**

**Ym Margam. Coesau’n camu – i’r twyni
A’r tannau’n ein tagu
O enau dur cegau du...
Dros fôr di-ras yfory.**



**Hyd y daith rhyfeddod oedd,
O’r aberoedd i’r Bari
Mae rhyw hud a blas mawrhau;
Hoff oriau yng Nglanfferi
Tir ysblander llawer lle
Abertawe, bro Tywi;
Casnewydd, Caerdydd, a’r don,
Awelon braf Cydweli,
Bro ar ôl bro’n gwmni braf,
Ystyriaf yr holl stori.**



**Rôl crwydro, mwynhau’r foment:
Rhoi gwaedd wrth gyrraedd Cas-Gwent!**



Ar ben fy hun bum unwaith – ond y daith

**Fu dau yn gydymaith
I'r arfordir mawr hirfaith,
Crwydro'r byd i'r machlud maith.**



Ffugenw: Crwydryn Arfordir Cymru